Cofnodion cyfarfod 16 Ionawr 2024 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 6.30 yn yr hwyr		
PRESENNOL		
Eifion Williams	Elenid Glyn	
Llŷr Evans	Emyr Gareth	
Eleri Wyn Thomas	Dafydd Huws	
Daniel Williams		
Cynog Prys		
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Eifion Williams. Cafwyd ymddiheuriadau gan Elen Gwenllïan a Meleri Jones.	
1.1	Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd.	
1.2	Ystyried Cais Menter Felinheli am arian o dan Adran 137 - Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi ystyried y ddau opsiwn a bod y mwyafrif o'r Cynghorwyr wedi dangos eu cefnogaeth i opsiwn A. Opsiwn A i. CC yn gefnogol o'r syniad o brynu asedau lleol ii. Cefnogol o Menter Felinheli ac yn fodlon i anfon llythyr ffurfiol o gefnogaeth i'r fenter. iii. Ffafriol o roi arian at y fenter ond oherwydd ein bod a chyfrifoldeb am arian cyhoeddus, dylid rhoi arian drwy'r cyfrwng grant (Adran 137). Byddai'r grant yn amodol ar bryniant y Marina a'i fod yn mynd yn ei flaen. Derbyn cais am grant sydd ar gyfer diben arbennig. Maint y grant yn ddibynnol ar fanylion y prosiect a manylion pendant o gostau. Opsiwn B i. Prynu ychydig o shares i ddangos cefnogaeth a chael y gallu i ddylanwadu ar unrhyw benderfyniad sydd ei wneud ynglŷn â rheolaeth y fenter. Gan fod yr opsiwn Ac wedi ei ddewis ni fydd cais am gymorth ariannol o dan Adran 137 yn cael ei ystyried hyd nes bydd cadarnhad bod y Fenter yn mynd yn ei blaen. Y Clerc i anfon llythyr at Menter Felinheli,	**CLERC** **CLERC**
1.3	Ymgynghoriad Strategaeth Diogelwch y Ffyrdd - Y Clerc i ymateb ar ran y Cyngor.	
1.4	Neb wedi gwneud cais am etholiad ar gyfer llenwi'r sedd wag. Y Clerc i hysbysebu'r sedd wag er mwyn galluogi'r Cyngor i gyfethol.	
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Cynghorydd Eifion Williams i eitem 5.2	
3.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
3.1	Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Rhagfyr 2023 - derbyniwyd.	**CLERC**
3.2	Cyflwynwyd Gyllideb drafft ar gyfer 2024-2025. Roedd y Pwyllgor Cyllid wedi cyfarfod yng nghynt ac wedi ystyried y gyllideb. Roedd cynnydd yn y chwyddiant yn y flwyddyn ariannol wedi effeithio pawb ac mae costau ar gyfer popeth wedi cynyddu. Oherwydd hyn fe benderfynodd y Clerc i gyflwyno cyllideb drafft gyda 10% o chwyddiant am y	

	flwyddyn ariannol nesaf. Fe ddangoswyd y Cyngor fod hwn yn dderbyniol.	
3.3	Er bod y gyllideb drafft wedi ei selio ar 10% o chwyddiant roedd yn dangos byddai'r £4000 o ddiffyg ond byddai'r arian sydd mewn llaw gynnal hyn; hefyd mae modd edrych a'r prisiau hurio'r neuadd i adennill rhywfaint o'r diffyg. Penderfynwyd bod rhaid felly godi'r praesept 10%. Cytunwyd ar hyn.	**CLERC**
4.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**	
4.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Rhagfyr 2023 yn rhai cywir.	**CLERC**
4.2	Toiledau - trefnu ymgynghori a Robinsons a chyfarfod safle a'r tenant y Garddfon. Ymgynghoriad a Robinson i'w wneud gan Y Clerc a chyfarfod safle i'w drefnu pan fydd gwybodaeth i law.	**CLERC**
4.3	Syniadau gan y Cyhoedd ar gyfer prosiectau yn dilyn ymgysylltiad a'r Gymuned ar ddiwrnod Gŵyl y Felin: Cofeb Brwydr Moel y Don - mae angen gwybod beth yw'r geiriau sydd ar y gofeb gyntaf. Credir bod llun ar gael - Y Clerc i wneud ymholiadau. WiFi - nid yw wifi cymunedol gan drefi SMART yn berthnasol ar gyfer Lon Lan y Môr oherwydd ei fwriad yw ar gyfer strydoedd fawr bentrefi a threfi. Hefyd roedd y Cyngor yn teimlo bod y mwyafrif heddiw gyda ffon symudol sydd yn gallu rhoi mynediad i'r we iddynt heb orfod cael wifi am ddim. Fel rhan o'r drafodaeth nid oedd y Cyngor eisiau annog pobl ifanc i fod yn ymgasglu. Plannu Cennin Pedr ar ymylon y ffordd i mewn i'r pentref o ochr Bangor a Chaernarfon - penderfynwyd cysylltu â Bwyd Bendigedig i weld os byddai modd i hyn gael ei wneud. Lon Las - creu ardal barcio gan ddefnyddio grasscrete ar ymylon y ffordd i Seilo. Cafwyd trafodaeth ar y mater hwn a dywedodd y Clerc ei bod wedi derbyn cadarnhad gan Gyngor Gwynedd bod y tir ym meddiant Llywodraeth Cymru. Cynghorydd Eifion Williams i baratoi cynllun a hefyd i gael manylion cyswllt ar gyfer holi os fyddai modd i wneud hyn. Y mater hwn i fod yn destun trafodaeth ar gyfer y Pwyllgor perthnasol. Plannu coed ffrwythau - mae coed ffrwythau wedi eu plannu ar hyd y Lon Las gan Bwyd Bendigedig. Efallai bod modd gwneud cyswllt a choedlannau i weld sut mae rheoli'r rhain. Mae plannu'r coed yn cefnogi bioamrywiaeth o fewn y Gymuned. Biniau - dywedwyd bod bin oedd ger y cae peldroedd ar Ffordd Lan y Môr wedi ei ddinistrio gan dân dro yn ôl ac nid oedd wedi ei roi yn ei ôl. Y Clerc i gysylltu â Gofal Stryd Cyngor Gwynedd. Casglu Sbwriel - penderfynwyd gwneud ymgyrch rhywdro ym mis Mawrth gan gysylltu â'r ysgol gynradd, mudiadau fel yr urdd, CIC, brownies, Guides a rainbows i weld os byddem â diddordeb mewn helpu. Y Clerc i gysylltu â Chadw Cymru'n Daclus.	
4.4	Cynllun Rheoli Traffig - dim dilyniant hyd yma. Cynghorydd Eifion Williams wedi cael sgwrs a'r rhingyll ond	

	roedd ef yn dweud dylai'r cyfarfod fod gyda'r Arolygydd. Y Clerc i Gysylltu â'r Rhingyll eto.	
4.6	Neuadd yr Eglwys: dywedodd y Clerc bod y Ficerdy a'r Eglwys wedi eu gwerthu a byddai rhan o'r arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Neuadd yr Eglwys. Penderfynwyd gwahodd y Tad Dylan Williams i gyfarfod yn fuan i drafod datblygiad y neuadd. Y Clerc i wneud trefniadau.	
4.7	Trafodwyd materion priffyrdd fel y dŵr ger Chans a hefyd gwaelod Penybryn. Y Clerc i wneud ymholiadau a Dwr Cymru a hefyd Cyngor Gwynedd ynglŷn â chau'r ffordd i wneud y Gwaith. Cafwyd Adroddiad bod dŵr yn arllwys drwy wal gynnal a'r Ffordd Gaernarfon. Mae'r mater yma wedi ei roi eisoes i sylw Cyngor Gwynedd a'r ymateb oedd ei fod yn cael ei fonitro. Y Clerc i ddod a''r mater unwaith yn rhagor at y Cyngor.	
5.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
5.1	Rhif Cais: C23/1.28/20/DT Lleoliad: Ficerdy Bryn Ffynnon, Y Felinheli LL56 4SQ Bwriad: Codi 3 balconi ac ailosod ffenestri fel drysau ar fycer mynediad. **DIM GWRTHWYNEBIAD.**	
5.2	Rhif Cais: C23/0772/20/LL Lleoliad: Tir ger y Wern, Y Felinheli LL56 4TZ Bwriad: Datblygiad anheddol a Gwaith isadeiledd cysylltiedig- SYLW**ADAU I'W HANFON**: **Llifogydd** Rydym o'r farn nad ydy'r asesiad llifogydd (FCA) wedi rhoi ystyriaeth ddigonol o'r risg llifogydd. Mae'n cydnabod fod mapiau CNC yn dangos risg llifogydd o'r nant sy'n llifo trwy'r safle ond does dim cyfeiriad at sut bydd y risg yma'n cael ei reoli. Does dim cyfeiriad at y culvert ar ben gogleddol y safle nac ystyriaeth i be allai ddigwydd os byddai hwn yn blocio. Does dim tystiolaeth yn yr FCA i awgrymu fod yr awduron wedi archwilio cyflwr y culvert - ydy mewn cyflwr addas i osod cymaint o dai yn gyfagos? Mae hanes llifogydd yn y lleoliad (ac ymhellach i lawr yn Ger y Nant a Cerrig yr Afon) ac mae dŵr yn aml i weld yn llifo o'r safle ar draws y ffordd gyferbyn a'r ysgol - lluniau isod. Rydym yn awgrymu y dylai'r FCA gael ei ddiwygio i roi ystyriaeth iawn i'r risg llifogydd i'r safle ac i ystyried os oes risg y byddai'r datblygiad yn gwaethygu risg llifogydd yn lleol. Dylai'r datblygwr ymchwilio yn fwy manwl i gyflwr y culvert ac os oes siawns y gallai blocio. **Draenio / SuDS** Mae'r cynllun 'proposed drainage' yn awgrymu gosod dau bwll SuDS ger y nant - er mwyn rheoli faint o ddŵr sy'n llifo o'r safle. Rydym yn bryderus fod lleoliad y pyllau yma yn anaddas - mewn llifogydd mae'n debyg y byddant wedi llenwi gyda dŵr o'r nant cyn y gallant fod yn effeithiol yn rheoli llif dwr o'r safle. Mae hyn yn arbennig o wir o'r pwll isaf ble mae tystiolaeth fod llifogydd yn cronni yno yn rheolaidd - gweler y lluniau isod. Rydym felly yn bryderus y gallai'r cynllun presennol waethygu risg llifogydd i lawr yr afon - gan gynnwys cartref henoed Cerrig yr Afon. Dylai'r cynllun yma gael ei ail-ystyried **Parcio** Mae lleoliad y fynedfa yn debyg o achosi lleihad yn	

	y nifer o lefydd parcio ar-stryd. Gyda phwysau parcio ger yr ysgol yn barod yn achosi problem i drigolion lleol, byddem yn falch o weld y datblygwyr yn cynnwys llefydd parcio cyhoeddus ger ffordd yr ysgol i wneud i fyny am unrhyw lefydd parcio stryd fyddai'n cael eu colli.	
6.0	**CYLLID, CYFLOGAETH, PHOLISÏAU A GWEFAN**	
6.1	Gwaith ar y wefan yn parhau. Bydd angen gweithio tuag at gael polisi bioamrywiaeth yn fuan.	
7.0	**ASEDAU**	
	Dim i'w adrodd	
8.0	**LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD**	
8.1	Dim i'w adrodd	**CLERC**
9.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
9.1	Bydd cyfarfod o'r Pwyllgor yn cael ei drefnu yn fuan.	**DW**
10.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Derbyniwyd neges gan aelod o'r cyhoedd oedd yn bryderus am gyflwr y slipway ger y parc chwarae a hefyd y jetty ger y Garddfon. Mae'r ymholiad am y silpway wedi ei rannu gydag Adran Morwrol Gwynedd. Wedi trafodaeth penderfynwyd nad oedd y jetty bellach o ddefnydd i lansio cychod ohono ond y gallai fod yn bwysig fel groyne i gadw'r blaendraeth rhag cêl ei olchi i ffwrdd. Y Clerc i anfon at Gwynedd i gadarnhau os oes bwriad i warchod a thrwsio'r jetty ar gyfer yr uchod.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9.30 yn y r hwyr.	
Llofnod:		**Dyddiad:**